CRICED CYMRU
CRICKET WALES

# Cyfarwyddwr Anweithredol – Disgrifiad o'r Swydd

## Bwrdd Cyfyngedig Criced Cymru

Mae Erthyglau'r Cwmni ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer Bwrdd Cyfarwyddwyr sy'n cynnwys:

- 5 Cyfarwyddwr Criced Hamdden o'r byd criced hamdden yng Nghymru
- 4 Cyfarwyddwr sy'n annibynnol o weinyddiaeth criced yng Nghymru
- 1 Cyfarwyddwr a enwebir gan Criced Morgannwg
- Cyfarwyddwr Cyllid
- Cadeirydd Annibynnol
- Prif Weithredwr

Penodir Cyfarwyddwyr am gyfnod o dair blynedd a chânt wasanaethu am naw mlynedd yn olynol ar y mwyaf. Penodir Cyfarwyddwyr Bwrdd Criced Cymru yn ôl set o sgiliau technegol, gwybodaeth a phrofiad, yn ogystal â chymwyseddau ac ymddygiad.

**Yn atebol i**: Cadeirydd y Bwrdd

**Perthnasoedd gwaith allweddol:** Is-bwyllgorau ac aelodau cyfethol y Bwrdd, Uwch Reolwyr Gweithredol, Clybiau a chyrff cyswllt eraill, Bwrdd Criced Cymru a Lloegr (ECB), Chwaraeon Cymru, Awdurdodau Lleol, Aelodau'r Senedd.

Pwrpas Bwrdd Cyfarwyddwyr Criced Cymru yw hyrwyddo, deall, helpu i gyflenwi, a gwireddu potensial criced hamdden yng Nghymru, gan gynnwys criced iau a chriced hŷn, gan sicrhau ein bod yn ymestyn y gêm ar draws pob ardal ddaearyddol o Gymru, ac yn ehangu ei hapêl i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

## Crynodeb o'r swydd

- Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod y cwmni'n cwrdd â'i ymrwymiadau cyfreithiol, ac am berfformiad Criced Cymru mewn perthynas â'i genhadaeth a chyflenwi ei strategaeth.
- Mae pob Cyfarwyddwr yn aelod cyfartal o'r Bwrdd ac yn ysgwyddo'r un cyfrifoldeb â phob Cyfarwyddwr arall o ran sicrhau llwyddiant y sefydliad i

gyflenwi criced i'n cymunedau, a sicrhau bod yna gydymffurfio â'r holl safonau allweddol, a materion llywodraethu ac arweinyddiaeth.

- Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn darparu trosolwg, craffu, her, ac arweinyddiaeth briodol wrth i'r cwmni anelu at ddarparu gwasanaethau effeithiol o safon uchel i'w aelodau, a thyfu criced yng Nghymru.
- Mae gan Gyfarwyddwyr Anweithredol rôl arbennig yn craffu ar berfformiad yr uwch dîm gweithredol mewn perthynas â chyflawni'r nodau ac amcanion a gytunwyd, a monitro'r broses o adrodd ar berfformiad.

Disgwylir i Gyfarwyddwyr Anweithredol gyfrannu at waith y Bwrdd yn y meysydd canlynol:

**Strategaeth**

- Gweithio gydag aelodau eraill y Bwrdd i fonitro, adolygu, datblygu a rhoi gweledigaeth, gwerthoedd, nodau ac amcanion strategol y cwmni ar waith, gan sicrhau cynllun busnes a chynllun ariannol cadarn a chynaliadwy.
- Helpu i sefydlu strategaeth glir a set o amcanion i barhau i fodloni telerau ein prif arianwyr a'n gweledigaeth, ac adolygu perfformiad yn rheolaidd yn erbyn yr amcanion hyn.
- Sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y cwmni.
- Cymryd rhan weithredol, fel aelod o'r Bwrdd, yn y broses o wneud penderfyniadau, i sicrhau bod ystyriaeth lwyr a chyflawn wedi'i rhoi i bob opsiwn yn ystod y broses.
- Adolygu a gwerthuso cyfleoedd, bygythiadau a risgiau, nawr ac yn y dyfodol yn yr amgylchedd allanol, a chryfderau, gwendidau a risgiau i'r sefydliad, nawr ac yn y dyfodol, ac i griced yng Nghymru a thu hwnt.
- Gwerthfawrogi natur amrywiol a chymhleth criced yng Nghymru, ein daearyddiaeth, a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu ein cymunedau gwahanol.



**Adnoddau dynol**

- Cefnogi, annog, a phan fo’n briodol, mentora aelodau timau hŷn mewn meysydd arbenigedd a gwybodaeth.
- Bod yn gyfrifol, ar y cyd â’r Cadeirydd, am eich datblygiad personol eich hun, a sicrhau bod hwnnw bob amser yn flaenoriaeth.
- Defnyddio’ch gallu fel arweinydd a’ch gwybodaeth bersonol o’r gymuned i gynghori a chefnogi cydweithwyr, a’r rhaglen waith allweddol.
- Darparu pwynt mynediad diogel ar gyfer rhai sy’n chwythu’r chwiban.
- Cyfrannu at yr adolygiad blynyddol o berfformiad y Cadeirydd.

**Cyfathrebu**

- Bod yn llysgennad ar gyfer Criced Cymru a bod yn wybodus ac yn ymwybodol o faterion lleol a chenedlaethol sy’n effeithio ar ein gêm.
- Cynnal gwerthoedd y sefydliad a gosod esiampl briodol, gan sicrhau eich bod, fel aelod o’r Bwrdd, yn hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer yr holl staff, cyfranogwyr, a rhanddeiliaid eraill.
- Datblygu perthynas waith adeiladol â’r Cadeirydd, Cyfarwyddwyr Anweithredol, cyd-aelodau o is-bwyllgorau ac Uwch Reolwyr Gweithredol, gan ddarparu cymorth ac arweiniad mewn meysydd arbenigedd a gwybodaeth.

**Cydymffurfio**

- Fel aelod o'r Bwrdd, sicrhau bod Criced Cymru yn cydymffurfio â'r safonau a osodir gan arianwyr, ac unrhyw ddeddfwriaeth a gofynion eraill perthnasol.
- Fel aelod o'r Bwrdd, hyrwyddo'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol, yn unol ag unrhyw godau a fframweithiau priodol neu berthnasol.
- Asesu ansawdd a chywirdeb unrhyw wybodaeth ariannol, manylion cyfranogiad, a gwybodaeth arall a gyflwynir i'r Bwrdd.
- Sicrhau bod dulliau rheoli ansawdd, polisïau a phrosesau ariannol ac eraill, a systemau rheoli risg a llywodraethu, yn gadarn ac yn cael eu rhoi ar waith.




**Disgwylir i holl Gyfarwyddwyr Criced Cymru:**

- Gynnal y safonau moesol uchaf o ran gonestrwydd a chywirdeb.
- Diogelu enw da Criced Cymru.
- Cwestiynu'n ddeallus, dadlau'n adeiladol, herio'n drylwyr, a gwneud penderfyniadau di-duedd.
- Gwrando gyda sensitifrwydd ar farn eraill, o fewn a thu allan i'r Bwrdd.
- Ennyn ymddiriedaeth a pharch Cyfarwyddwyr eraill y Bwrdd a'r aelodau.
- Hyrwyddo buddiannau strategol Criced Cymru yn fewnol ac yn allanol, a chytuno'n gyhoeddus bob amser â'r penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd.

- Hyrwyddo a modelu prosesau penderfynu effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dadleuon adeiladol.
- Osgoi sefyllfaoedd lle mae buddiannau Criced Cymru yn gwrthdaro â buddiannau personol, rolau criced eraill, neu ddyletswydd i drydydd parti - ac, os bydd hynny'n digwydd, datgan y buddiant hwnnw.
- Cymryd rhan gyda hyd at ddau o is-bwyllgorau'r Bwrdd, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Enwebiadau.
- Cydymffurfio bob amser â pholisïau iechyd a diogelwch a pholisïau diogelu cyhoeddedig a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyfarwyddwyr.

**Ymrwymiad o ran amser / cydnabyddiaeth ariannol**

- **Cyfarfodydd y Bwrdd** - cynhelir y rhain yn ystod y dydd hyd at chwe gwaith y flwyddyn, fel arfer yn Stadiwm Gerddi Sophia, Caerdydd, ond hefyd mewn lleoliadau eraill o amgylch Cymru, ac, os oes angen, drwy delegynadledda ar Teams/Zoom.
- **Is-bwyllgorau -** yn cwrdd 4/6 gwaith y flwyddyn fel bo angen; mae'r rhain fel arfer yn gyfarfodydd fin nos a gynhelir drwy delegynadledda ar Teams/Zoom.
- **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol** – mae hwn fel arfer ym mis Medi/Hydref a gosodir y dyddiad ymlaen llaw. Gwahoddir Cyfarwyddwyr y Bwrdd i fynychu'r digwyddiad hwn (yn bersonol neu'n rhithwir).
- **Gweithgareddau swyddogol Criced Cymru** - gwahoddir Cyfarwyddwyr y Bwrdd i fynychu digwyddiadau swyddogol megis seremonïau cyflwyno, rowndiau terfynol cystadlaethau a chyfarfodydd perthnasol eraill. Derbynnir bod hyn pan fydd yr unigolyn 'ar gael' yn unig ac felly nid yw wedi'i nodi yn nhermau nifer digwyddiadau/dyddiau.
- **Treuliau** - telir costau teithio ar raddfa benodol o 40c y filltir. Caiff costau rhesymol eraill eu had-dalu, megis teithiau trên, costau llety ac ati.
- **Cydnabyddiaeth Ariannol -** Mae Cyfarwyddwyr y Bwrdd, ar wahân i'r Prif Weithredwr, yn rolau anweithredol ac felly'n rhai gwirfoddol a di-dâl.

**Diwylliant perfformiad uchel Criced Cymru**

Mae Criced Cymru yn anelu at ddatblygu diwylliant lle mae perfformiad uchel yn norm a phobl yn cael eu cefnogi i fod y gorau y gallant fod. Yn ogystal â sgiliau technegol, gwybodaeth a phrofiad, mae'r cymwyseddau a'r ymddygiad a fydd yn cefnogi'r nod hwn wedi'u datblygu, ac rydym am i bawb sy'n rhan o Criced Cymru arddangos y rhain.




<u>**Sgiliau Technegol a Chymwyseddau Allweddol rydym am eu denu – a'u cadw – ar y Bwrdd**</u>

Mi fydd angen ichi arddangos gwybodaeth, profiad ac arbenigedd mewn amryw o sgiliau a chymwyseddau gwahanol. Isod ceir rhestr o'r rhai a ystyriwn yn bwysig.

**Sgiliau technegol, gwybodaeth, a phrofiadau**

- **Gwerthfawrogiad o griced a gwerthoedd y gêm.**
- **Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant** – gwybodaeth a phrofiad o arwain a chyfrannu at ddatblygiad diwylliant sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, ac sy'n gosod gwerth ar amrywiaeth a chynhwysiant.
- **Rheoli newid** – Profiad o arwain a rheoli newid o fewn sefydliad.
- **Cynllunio strategol a ffocws** – profiad o gynllunio a gwerthuso cynllun strategol a'i roi ar waith.
- **Perthnasoedd strategol** - profiad o berthnasoedd strategol a chyfathrebu effeithiol, gwybodaeth a phrofiad o'r darlun chwaraeon ehangach a dylanwadwyr, partneriaid a rhanddeiliaid allanol.
- **Cysylltiadau ag Aelodau** – profiad o reoli perthynas ag aelodau a chwsmeriaid a chyfathrebu effeithiol.

- **Ffocws Masnachol** – profiad o fentrau cymdeithasol, cynhyrchu incwm gan gynnwys nawdd, ymddiriedolaethau a sefydliadau, a datblygu modelau busnes proffidiol a chynaliadwy.
- **Adolygu perfformiad Adnoddau Dynol/Tîm Rheoli Gweithredol** - gwybodaeth a phrofiad o ystyriaethau adnoddau dynol, gan gynnwys recriwtio tîm gweithredol, adolygu perfformiad, datblygiad a chymorth proffesiynol.
- **Gwybodaeth ariannol** - gwybodaeth a phrofiad o gynllunio/rheoli ariannol, defnydd priodol o reoliadau mewnol, a gofynion archwilio Bwrdd nid-er-elw.
- **Asesu Risg** – profiad o nodi a rheoli risg
- **Cyfrifoldeb Llysgenhadol -** profiad o gyflawni rôl llysgenhadol ar ran sefydliad, ac ar yr un pryd, mynd ar drywydd cyfleoedd i ddatblygu'r sefydliad ymhellach.



**Cymwyseddau**

- **Gwaith tîm** - gweithio ar y cyd ag eraill a sicrhau cyfranogiad ar draws y busnes, yn ogystal â gyda phartneriaid allweddol, i helpu i gyflawni amcanion Criced Cymru.
- **Cyfathrebu** – cyfathrebu ag eraill mewn ffordd glir, gryno a phwrpasol i adeiladu perthnasoedd effeithiol ac ennyn cefnogaeth ac ymrwymiad i syniadau.
- **Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol –** arddangos brwdfrydedd i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol ar gyfer 'cwsmeriaid' mewnol ac allanol sydd o fudd i'r 'cwsmer' a Criced Cymru fel ei gilydd.
- **Gwneud penderfyniadau a datrys problemau** – dadansoddi, a defnyddio doethineb, profiad a dulliau rhesymegol i ddatrys problemau a dod o hyd i atebion effeithiol.
- **Cyflawni -** sicrhau bod pob cyfraniad yn cael ei gyflawni yn unol â safonau uchel cyson, a chwilio parhaus am ffyrdd o wella'ch perfformiad eich hun a pherfformiad eraill.
- **Arweinyddiaeth** – dylanwadu'n gyson ar wella arferion busnes a newidiadau sefydliadol drwy fodelu arfer gorau a'i roi ar waith.
- **Rheolaeth strategol** – darparu eglurder, cyfeiriad ac ysbrydoliaeth drwy gymell gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a beth ellir ei gyflawni.

**Cymhwysedd i fod yn Gyfarwyddwr Cwmni**

Yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth yn erthyglau'r cwmni, gall unrhyw un fod yn Gyfarwyddwr oni bai ei fod wedi'i wahardd rhag gwneud hynny dan Ddeddf Datgymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmni 1986, neu drwy fod yn fethdalwr heb ei ryddhau.

Sylwer hefyd bod Cyfarwyddwr neu Gyfarwyddwr Cysgodol cwmni sydd wedi mynd yn fethdalwr wedi'i wahardd am bum mlynedd rhag bod yn gyfarwyddwr neu'n gyfarwyddwr cysgodol, a rhag cymryd rhan yn y broses o ffurfio neu redeg cwmni o'r un enw, neu enw tebyg iawn, i'r cwmni a aeth yn fethdalwr (Deddf Ansolfedd 1986, adran 216).

Rhaid i bob ymgeisydd fod yn 16 oed neu'n hŷn ac, os yw'n gwneud cais i fod yn Gyfarwyddwr Criced Hamdden, rhaid iddo ef neu hi gael ei enwebu a'i eilio gan unigolion sy'n aelodau o un o sefydliadau cyswllt Criced Cymru




Gweler **[yma]** am ganllawiau Tŷ'r Cwmnïau - **Bod yn gyfarwyddwr cwmni.**